# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 19 Chwefror 2014** |
| Amser: | **09:22 - 11:58** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_19_02_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**David Rees (Cadeirydd)**
**Leighton Andrews**
**Rebecca Evans**
**Janet Finch-Saunders**
**Elin Jones**
**Darren Millar**
**Lynne Neagle**
**Gwyn R Price**
**Lindsay Whittle**
**Kirsty Williams**

Tystion:

**Fiona Jenkins, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**
**Pushpinder Mangat, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**
**Dr Geoffrey Carroll, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru**
**Dr Philip Webb, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru**
**Pete Phillips, Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol**
**Mark Roscrow, NHS Shared Services Partnership**
**Alun Tomkinson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)** |
|---|---|

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Janet Finch-Saunders i'r Pwyllgor ac estynnodd ddiolch i William Graham am ei gyfraniad at waith y Pwyllgor.

## 2 Ymchwiliad i'r mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 6

2.1 Atebodd Fiona Jenkins o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro, Pushpinder Mangat o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, a Dr Geoffrey Carroll a Dr Philip Webb o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor.

2.2 Ar ddiwedd y sesiwn, cytunodd Dr Webb i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor yn amlinellu un argymhelliad allweddol y byddai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn ei wneud i'r Pwyllgor mewn perthynas â gwella'r mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru a sut y gellid cyflawni hyn.

## 3 Ymchwiliad i'r mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 7

3.1 Atebodd Mark Roscrow o Bartneriaeth Cydwasanaethau’r GIG, Pete Phillips o'r Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol, ac Alun Tomkinson o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2014.

4.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Busnes ynghylch gwaith craffu effeithiol y Pwyllgor ar y Gyllideb a chytunodd y dylai'r Cadeirydd ateb y Pwyllgor Busnes a chadarnhau bod y Pwyllgor yn cefnogi adolygiad o broses y gyllideb

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: Eitemau 6 a 7

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafodaeth breifat ar adroddiad drafft y Pwyllgor ar Waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ei adroddiad drafft ar waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

## 7 Ystyried dull gweithio'r Pwyllgor ar gyfer ei waith dilynol ar y cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod a chytunodd ar ei ddull gweithio ar gyfer ei waith dilynol ar y cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.